



Strategaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch  
yn y Gweithle ym Mhrydain Fawr  
hyd at 2010 a thu hwnt



## Rhagair y Cadeirydd

**C**ynllunnir y strategaeth hon i hyrwyddo ein gweledigaeth, sef gweld iechyd a diogelwch fel congifaen cymdeithas wâr a, chyda hynny, cyflawni hanes o iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n arwain y byd. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant ac yn datblygu Datganiad Strategaeth Iechyd a Diogelwch Adfywiol mis Mehefin 2000.

Strategaeth yw hon ac nid cynllun. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn yr ydym ni, y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) yn dymuno ei gyflawni, ein cyfraniad arbennig a chyfraniadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac awdurdodau lleol sydd hefyd yn gorfodi cyfreithiau iechyd a diogelwch. Bydd ein cynlluniau busnes yn disgrifio'n fwy manwl sut y bwriadwn wneud hyn, a phryd. Dylai'r strategaeth hon rymuso ymagwedd Prydain Fawr tuag at wella iechyd a diogelwch yn y gweithle ar gyfer y dyfodol. Gweledigaeth y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ydyw a bydd yn ei hyrwyddo ac yn sicrhau y caiff ei chyflawni.

Mae hon yn strategaeth ar gyfer y system iechyd a diogelwch. Byddwn yn dadlau ag eraill ynglŷn â sut y gellid atgyfnerthu'r system, a lle y ceir bylchau a chyfyngiadau, a sut y gellid eu llenwi. Ni all HSC, HSE na'r Awdurdodau Lleol wneud hyn drwy eu camau gweithredu hwy yn unig. Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau ein bwriad i ddeall a gwerthfawrogi cyfraniad eraill i wella iechyd a diogelwch – nid dim ond cyflogwyr ond pawb gan gynnwys gweithwyr, eu sefydliadau cynrychiadol a chyrrff proffesiynol. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen i ni gysylltu â phob un a all gyfrannu at ei lwyddiant. Y ddogfen hon yw'r cam cyntaf. Mae'n egluro ein bod ni, HSE a'r Awdurdodau Lleol yn barod i newid y ffordd yr ydym yn gweithio a'n sefydliadau presennol os byddant yn amharu ar gynydd. I ddechrau, byddwn yn adolygu


trefniadau rheoli ar gyfer HSC a HSE a'n cysylltiadau â'r Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion y strategaeth hon sy'n datblygu.

Strategaeth am adnoddau cyfyngedig, penderfyniadau anodd a blaenoriaethau yw hon. Yn amlwg, byddem yn croesawu rhagor o adnoddau a byddai hyn yn helpu i ddod â gwelliannau i iechyd a diogelwch. Ond, ni fydd rhagor o'r un peth, hyd yn oed gyda mwy o adnoddau ac effeithlonrwydd, yn delio â materion iechyd sy'n codi neu'r byd gwaith newidiol a gofynion ein rhanddeiliaid. Golyga hyn fod yn rhaid i HSE a'r Awdurdodau Lleol ganolbwyntio ar y pethau y gallant eu gwneud orau, gan gynnwys archwilio a gorfodi, a gwneud hynny lle y byddent yn cael yr effaith fwyaf. Caiff cyfraniad HSE ei gyflwyno drwy raglenni gweithgaredd effeithlon sydd ag adnoddau digonol. Byddwn yn gofyn i'r Awdurdodau Lleol wneud yr un fath.

Strategaeth am newid yw hon hefyd. Mae'n ymwneud â gwneud pethau'n wahanol, cynnwys eraill neu hyd yn oed dweud na mewn rhai achosion. Pan fyddwn wedi cyflawni'r strategaeth hon, disgwylwn i'r byd ymddangos yn wahanol i sut y mae'n ymddangos heddiw a datblygir y syniadau hyn yn y strategaeth.


Mae'r strategaeth hon yn datblygu cryfder ein perthynas â'n rhiant adran, sef yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'n huchelgais cyfunol i hyrwyddo cyfle ac annibyniaeth, a gweithlu iach a chynhyrchiol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r nifer o bobl sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn at y strategaeth hon. Mae eich sylwadau a'ch awgrymiadau wedi dylanwadu'n fawr ar ein ffordd o feddwl a chyda'n gilydd gallwn gyflawni hyn.



**Bill Callaghan**  
**Cadeirydd HSC** Chwefror 2004

Ein gweledigaeth yw  
cydnabod iechyd a  
diogelwch fel  
conglfaen cymdeithas  
wâr a, chyda hynny,  
cyflawni hanes  
iechyd a diogelwch  
yn y gweithle sy'n  
arwain y byd.



# Cyflwyniad

## Fframwaith a sefydliadau iechyd a diogelwch

**R**hoddod Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ddyletswyddau cyffredinol ar bob cyflogwr i ddiogelu iechyd a diogelwch eu cyflogeion a'r rheini y mae eu gweithgareddau yn y gwaith yn effeithio arnynt. Mae ei hymagwedd o osod nodau yn ei gwneud yn eglur mai'r rhai sy'n creu risgiau yw'r rhai sy'n gallu eu rheoli orau. Mae cyfranogiad cyflogeion yn rhan allweddol o'r ymagwedd hon. Arweiniodd y Ddeddf at sefydlu HSC a HSE, a darpariaeth i Awdurdodau Lleol i orfodi cyfreithiau iechyd a diogelwch mewn adeiladau penodol.

Prif swyddogaeth HSC yw sicrhau bod darpariaethau'r Ddeddf yn cael eu gweithredu. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal ac yn noddi'r ymchwil, yn hyrwyddo hyfforddiant, yn darparu gwybodaeth a chynghor ac yn cyflwyno cynigion i Weinidogion ar gyfer rheoliadau newydd neu ddiwygiedig a chodau ymarfer wedi'u cymeradwyo. Mae HSE yn ein cefnogi yn yr ymdrech hon a chydag Awdurdodau Lleol, mae'n gorfodi'r gyfraith. Caiff ein gwaith ei ategu gan wyddoniaeth, technoleg a thystiolaeth gadarn ac sydd oll yn agored ac ar gael. Mae'r drefn hon wedi helpu i leihau nifer y trychinebau yn y gweithle o tua dwy ran o dair ers y 1970au. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y system iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr, ymwelwch â:  
<http://www.hse.gov.uk/pubns/ohsingb.pdf>

## Cyd-destun ar gyfer y strategaeth sy'n datblygu

Yr her allweddol ar gyfer y strategaeth hon yw sut i wneud y broses o reoli risg yn briodol yn berthnasol i'r byd gwaith modern a newidiol. Ers 1974, mae'r gweithle a'r byd o'i amgylch wedi newid yn sylweddol. Mae llai o gwmnïau mawr a llawer llai o gwmnïau bach – mae dros 90% o'r tua 3.5 miliwn o fusnesau yn cyflogi llai na 10 o bobl ond mae bron i hanner y gweithlu yn cael eu cyflogi mewn sefydliadau mawr. Mae gweithio rhan amser wedi cynyddu ac mae merched bellach yn cyfrif am hanner y gweithlu. Mae'r sector gweithgynhyrchu yn agored i gystadleuaeth ryngwladol ddwys. Mae'r sector gwasanaeth wedi dod yn fwy pwysig. Mae agweddau'r cyhoedd tuag at risgiau, iawndal a bai a iawndal wedi newid. Mae'r heriau newydd yng nghyd-destun iechyd a diogelwch bron i gyd yn ymwneud ag iechyd yn hytrach na diogelwch, ond, yn hanfodol, mae cyfradd y gwelliant mewn diogelwch bellach wedi arafu.

## Ysgogwyr allweddol ar gyfer newid

- Canfyddiad nad oes unrhyw gyfeiriad cydlynol i'r system iechyd a diogelwch cyffredinol. Ni all/ni ddylai HSC, HSE a'r Awdurdodau Lleol wneud hyn i gyd. Cytunir bod angen gosod ffiniau a chyfeiriad.
- Mae adnoddau HSE a'r Awdurdodau Lleol yn gyfyngedig, wedi'u lledaenu'n rhy denau ac mae angen iddynt, felly, gael eu targedu at y manau lle y gallant gael yr effaith fwyaf.

- Mae HSC, HSE a'r Awdurdodau Lleol wedi gwneud gwaith da ar ddiogelwch ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud ar iechyd. Collwyd 40 miliwn o ddyddiau gwaith o ganlyniad i salwch galwedigaethol ac anafiadau yn 2001/2. Roedd 33 miliwn yn briodoladwy i salwch. Mae'n bosibl bod ein hymyriadau traddodiadol yn llai effeithiol pan ymdrinnir ag iechyd na phan ymdrinnir â diogelwch.
- Dengys ein hymchwil nad yw pob sefydliad yn cysylltu â HSE a'r Awdurdodau Lleol. Mae rhai yn ofni cyswllt o'r fath. Mae'r ofn hwn yn ysgogi rhai i gymryd camau gweithredu ar iechyd a diogelwch ond mae'n eu rhwystro rhag troi at HSE neu'r Awdurdodau Lleol am gyngor.
- Os ydym yn awyddus i gael enillion hirdymor, mae angen i ni gael calonnau a meddyliau nad ydynt yn gwarafun derbyniad.

## Gweledigaeth, Cenhadaeth a Nodau Haen Uchel

### Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw cydnabod iechyd a diogelwch fel conglaen cymdeithas wâr a, chyd hynny, cyflawni hanes o iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n arwain y byd.

### Y genhadaeth yw

Y genhadaeth yw i HSC a HSE, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol, ddiogelu iechyd a diogelwch pobl trwy sicrhau y caiff risgiau yn y gweithle newidiol eu rheoli'n briodol.

### Nodau parhaus HSC a HSE:

- diogelu pobl trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor; hyrwyddo a sicrhau system reoli

sy'n gosod nodau; ymgymryd ag ymchwil ac annog hyn a gorfodi'r gyfraith lle y bo'n briodol;

- dylanwadu ar sefydliadau i groesawu safonau uchel o iechyd a diogelwch ac i gydnabod y manteision cymdeithasol ac economaidd;
- gweithio gyda busnes i atal methiannau trychinebus mewn diwydiannau peryglus iawn
- ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i gyflwyno ein cenhadaeth a'n gweledigaeth.

### **Nodau newydd HSC a HSE:**

- datblygu ffyrdd newydd o sefydlu a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch effeithiol mewn economi newidiol, er mwyn i bob cyflogwr gymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif, i'r gweithlu fod yn gwbl gysylltiedig ac i risgiau gael eu rheoli'n briodol;
- gwneud rhagor i fynd i'r afael â materion iechyd newydd a'r rhai sy'n dod i'r golwg sy'n ymwneud â'r gwaith;
- cyflawni lefelau uwch o gydnabyddiaeth a pharch at iechyd a diogelwch fel rhan annatod o sector busnes a sector cyhoeddus modern a chystadleuol ac fel cyfraniad at gyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant
- enghreiffio arfer gorau'r sector cyhoeddus wrth reoli ein hadnoddau.

Ymatebodd mwy na 200 o bobl i'n hymgyngoriad ar strategaeth ddrafft, ac yn cynnwys arolwg ffôn a digwyddiadau rhanbarthol, rydym wedi siarad â mwy na 2,500 o bobl.

## **Datblygu'r strategaeth**

**D**atblygwyd y strategaeth hon drwy broses o ymgynghori ac archwilio'r dystiolaeth a oedd ar gael ar effeithiolrwydd ymyriadau iechyd a diogelwch. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ddau ymarfer hwn yn llawn er mwyn i eraill ddeall ein ffordd o feddwl.



Ein Themau Hemâu  
Strategol a Phwynyiau  
Allweddol i'w hategu

# 1

## Datblygu partneriaethau agosach

### Gweithio gydag eraill a thrwy eraill

**D**ymunwn gydnabod cyfraniad system iechyd a diogelwch wedi'i chynllunio a'i gweithredu'n gywir at yr agenda ehangach a defnyddio cyfraniad eraill at ein nodau.

Byddwn yn archwilio ein sefydliadau a'n ffyrdd o weithio, a'u newid lle y maent yn milwrio yn erbyn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

Byddwn yn datblygu partneriaethau strategol agosach er mwyn gwella ein cyfraniad at:

- **Gyflogaeth a chynhyrchiant** – trwy gadw'r rheini sydd yn y gwaith yn iach a mewn gwaith;
- **Addysg** – trwy feithrin dealltwriaeth briodol o reoli risgiau o oedran cynnar;
- **Iechyd ac ailsefydlu** – trwy gyfrannu at iechyd a lles y genedl a delio ag anghydraddoldebau iechyd;
- **Diwygio gwasanaethau cyhoeddus** – trwy leihau salwch yn y sector cyhoeddus a gwella darpariaeth y sector cyhoeddus.

### HSE ac Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd

**R**ydym wedi edrych yn fanwl ar raniad cyfredol cyfrifoldeb gorfodi rhwng Awdurdodau Lleol a HSE a'u ffyrdd o weithio. Nid oes unrhyw resymeg parhaus i'r trefniadau cyfredol. Maent yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn seiliedig ar ffiniau ac ymagweddau sy'n fwy addas ar gyfer cyfleustra'r rheolydd nag anghenion y busnes neu'r gweithlu. Nid ydynt yn nodi potensial llawn HSE ac Awdurdodau Lleol i weithio gyda'i gilydd.



- Dymunwn weld HSE ac Awdurdodau Lleol yn gweithio mewn partneriaeth agosach sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o werth ymyriadau lleol yn erbyn ymyriadau canolog. Byddai sectorau penodol a rhai sefydliadau mawr yn elwa ar ymagwedd genedlaethol a gyflwynir drwy raglenni a gydlynir yn ganolog. Byddai cyfraniad Awdurdod Lleol at raglen adeiladu a arweinir gan HSE neu gydlynad cenedlaethol ymagwedd Awdurdodau Lleol tuag at fanwerthwyr mawr â rhwydweithiau cenedlaethol yn enghreifftiau. Byddai cynllunio lleol ar y cyd, gwneud penderfyniadau ar y cyd a champau gweithredu ar y cyd yn mynd i'r afael â'r sectorau sy'n weddill a'r holl faterion sy'n gysylltiedig â hwy.
- O ganlyniad i hyn, bydd yr Awdurdodau Lleol a HSE yn gweithio i adrannau o orfodaeth a thargedau cytûn sy'n fwy synhwyrol ac a ddeallir yn well o fewn fframwaith y cytunwyd arno.
- Bydd y bartneriaeth newydd hon yn ffynnu drwy agweddau a diwylliannau sy'n newid. Er mwyn enghreifftio'r ymagwedd newydd hon, bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn adeiladu ar enghreifftiau presennol o arfer gorau ac yn datblygu systemau ar gyfer rhannu hyfforddiant, gwybodaeth ac arbenigedd.
- Caiff y bartneriaeth hon ei mynegi mewn dogfen bwysig a gaiff ei hardystio gan arweinwyr gwleidyddol yr Awdurdodau Lleol, HSC a HSE.
- Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwerth trefniadau cyswllt presennol HSE ac Awdurdodau Lleol gan gynnwys Pwyllgor Cyswllt Gorfodi HSE ac Awdurdodau Lleol (HELA) er mwyn sicrhau eu bod yn addas i gyflwyno ein dyheadau newydd.

## Ymateb i her iechyd galwedigaethol

**G**wnaed datblygiadau sylweddol o ran pwysu ar yr hyn sy'n achosi methiannau diogelwch gan ddefnyddio offer a dulliau presennol. Ond bydd angen dulliau newydd er mwyn dylanwadu ar faterion iechyd. Ymhlith ein holl heriau, mae iechyd galwedigaethol yn gofyn am ymagwedd sy'n fwy strategol ac sy'n seiliedig ar bartneriaeth.

- Byddwn yn datblygu partneriaethau arloesol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn datblygu'r broses o ddarparu cymorth iechyd a diogelwch galwedigaethol yn lleol, yn rhanbarthol neu yn ôl y sector yn ôl yr angen. Bydd yr egwyddor o reoli risgiau iechyd yn rhagweithiol wrth graidd y cymorth hwn.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn ysgogi galw am y gwasanaethau hyn ac yn dod o hyd i sianeli i ddylanwadu ar sefydliadau bach a grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd.
- Byddwn yn atgyfnerthu rôl iechyd a diogelwch o ran cael pobl yn ôl i'r gwaith drwy roi pwyslais llawer mwy ar ailsefydlu fel cyfraniad at agenda gyflogaeth ehangach y llywodraeth. Byddwn yn defnyddio ein cysylltiadau â'r Adran Gwaith a Phensiynau at y diben hwn ac yn gweithio gydag eraill – undebau llafur, cyflogwyr, yswirwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol – er mwyn cyflawni hyn.

# 2

## Helpu pobl i elwa ar reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol a diwylliant iechyd a diogelwch synhwyrol

### Deall manteision iechyd a diogelwch

**M**ae rhai busnesau, yn arbennig busnesau bach, yn gweld HSE fel sefydliad o arbenigwyr, sy'n siarad ag arbenigwyr mewn sefydliadau mawr ac yn creu ymagweddau ac arweiniad ar gyfer yr un arbenigwyr. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor er mwyn i bobl ddeall a derbyn iechyd a diogelwch a'i fanteision yn well.

Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd o ddangos yr achosion moesol, busnes ac economaidd ar gyfer iechyd a diogelwch. Mae rheoli iechyd a diogelwch yn briodol yn rhan annatod o reoli busnes yn effeithiol, ac fel y cyfryw, mae'n alluogwr ac nid yn rhwystr.

Byddwn yn symleiddio'r syniad o asesu risg i'w wneud yn berthnasol ac ar gael i bawb ac i sicrhau ymagwedd synhwyrol tuag at reoli risg. Byddwn yn egluro bod asesu risg yn offeryn syml, perthnasol ac effeithiol.

Er bod safonau gosod nodau yn fwy hyblyg ac yn hyrwyddo arloesedd, bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn defnyddio ymagwedd fwy penodol a chyfarwyddol fel offeryn perthnasol lle y mae busnesau'n ymateb yn well iddo. Ymhen amser, bydd hyn yn cynyddu hyder a gallu ac yn hyrwyddo hunanreoliad effeithiol.

Byddwn y defnyddio rôl y Llywodraeth fel cyflogwr yn amlach i ddangos manteision rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus i'r sector preifat.

## Cynnwys y gweithlu

**A**sed mwyaf sefydliad yw ei weithlu. Yn aml, cyflogeion sydd yn y sefyllfa orau i allu codi materion a chreu gwelliannau gwirioneddol. Gallant ddylanwadu ar iechyd a diogelwch hefyd drwy eu camau gweithredu eu hunain a thrwy dderbyn cyfrifoldeb personol. Mae cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn y gweithle undebau llafur sy'n gweithredu mewn partneriaeth â'r rheolwyr yn rhan bwysig o gydnabod manteision iechyd a diogelwch.

Cydnabyddwn eu cyfraniad gwerthfawr. Mae angen i ni ehangu sail cyfranogiad cyflogeion wrth reoli iechyd a diogelwch er mwyn cwmpasu'r gweithlu cyfan.

- Byddwn yn hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan weithwyr mewn iechyd a diogelwch yn y gweithle ac yn defnyddio 'Cronfa Her' yr Adran Gwaith a Phensiynau i ehangu cyngor diogelwch yn y gweithle i fusnesau bach.
- Byddwn yn annog mwy o bobl i wirfoddoli i ddod yn gynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn y gweithle ar draws pob sector busnes a'r sector cyhoeddus.

## Darparu cyngor a chymorth hygyrch

**D**engys ein hymgyngoriadau fod rhai busnesau, yn arbennig busnesau bach, yn awyddus i gydymffurfio â'r safonau iechyd a diogelwch ond eu bod yn ofni mynd at HSE neu Awdurdodau Lleol am gymorth. Gall goresgyn y rhwystr hwn, yn arbennig wrth ddechrau busnes, arwain at

well iechyd a diogelwch yn sylweddol. Hoffwn ddatblygu sianeli cymorth a chyngor y gellir eu defnyddio heb ofni camau gweithredu gorfodol tra'n galluogi'r rheolwyr i barhau i fod yn llym ar y rheini sy'n torri'r gyfraith yn fwriadol. Nid yw'r rhain yn faterion hawdd a byddwn yn cynnal astudiaethau pellach, gan gynnwys rôl canolwyr cwmnïau bach, cyn penderfynu ar sut y gellir cyflawni'r nod hwn orau.

- Byddwn yn archwilio ffyrdd o hyrwyddo mwy o gyfle i weld cyngor ac arweiniad iechyd a diogelwch awdurdodol a ffyrdd o gael mwy o bobl i ymgymryd â'r rhain.
- Byddwn yn pwysu am ddarparu cyngor a chymorth sydd ar gael yn genedlaethol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar iechyd galwedigaethol. Dylai hyn fod o gymorth i atal salwch, hyrwyddo ailsefydlu a chael pobl yn ôl i'r gwaith yn gyflymach.
- Os bydd angen, byddwn yn ehangu'r ddarpariaeth honno i gwmpasu cyngor a chymorth mwy cynhwysfawr ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch maes o law.
- Bydd HSE yn parhau i gynhyrchu arweiniad ysgrifenedig awdurdodol pan fydd angen hynny ac yn gyson â'n blaenoriaethau. Ond derbyniwn fod eraill o bosibl mewn sefyllfa well i gynhyrchu arweiniad arfer da ar gyfer diwydiannau neu bynciau penodol a byddwn yn annog hynny lle bynnag y gallwn.
- Bydd arolygwyr HSE ac Awdurdodau Lleol yn parhau i gynnig cyngor yn ystod eu gweithgareddau eraill oherwydd croesawir hyn yn gyffredinol gan gyflogwyr.

# 3

Canolbwyntio ar  
ein busnes craidd  
a'r ymyriadau  
cywir lle yr ydym  
yn y sefyllfa orau  
i leihau  
anafiadau yn y  
gweithle a  
salwch

## Egluro ein blaenoriaethau

**G**ellir dehongli'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HSWA) yn gyffredinol iawn, ac fel y mae ein hymgyngoriadau wedi dangos, mae rhanddeiliaid yn aml yn awyddus i ni wneud mwy nag y gallwn. Hyd yn oed gyda mwy o effeithlonrwydd, ni fydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn bodloni'r galwadau hyn gan fod angen iddynt rheoli eu blaenoriaethau'n fanwl gywir.

Lle y gellir sicrhau y rheolir risgiau'n briodol, ni fydd HSE a'r Awdurdodau Lleol yn ymyrryd yn rhagweithiol. Golyga hyn y byddwn yn annog HSE ac Awdurdodau Lleol i beidio â rhoi adnoddau i faterion lle nad yw'r risgiau'n ddifrifol iawn, lle y maent wedi'u deall yn dda ac wedi'u rheoli'n briodol. Mae angen i'r broses hon fod yn agored ac yn dryloyw i bawb. Rydym yn gofyn i HSE ac Awdurdodau Lleol weithio'n agos gyda'i gilydd ac ymgynghori â rhanddeiliaid i lunio meini prawf addas i nodi'r meysydd hynny lle na fydd HSE a'r Awdurdodau Lleol yn ymyrryd yn rhagweithiol.

Bydd HSE yn symud i fwrdd yn benderfynol rhag ymyrryd yn y meysydd hynny o ddiogelwch y cyhoedd a reolir yn well gan eraill neu gan ddulliau eraill – gan gynnwys y gyfraith sifil. Bydd HSE yn parhau i gymhwyso ei arbenigedd unigryw i ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd y caiff risgiau yn y diwydiannau peryglus iawn eu rheoli'n ddigonol.

Byddwn yn hyrwyddo dadl sy'n cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth ac Awdurdodau Lleol am gyfraniad priodol y gyfraith iechyd a diogelwch yn y gweithle at y cyhoedd ac at gyfundrefnau diogelwch y defnyddwyr. Hoffwn sicrhau ymagwedd gyffredinol gydlynol tuag at ddiogelwch y cyhoedd a nodi bylchau sydd angen eu llenwi trwy ddulliau eraill.

## Strategaeth Ymyrraeth

**G**ellir cyflawni safonau iechyd a diogelwch derbyniol mewn sawl ffordd ac mae llawer o'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ffyrdd newydd o sicrhau cydymffurfriad yn wirfoddol. Ond bydd y rheolydd yn parhau i chwarae rhan. Bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn gwneud mwy i nodi gwerth eu heffaith ac i ymddiried yn effaith safonau eraill.

- Bydd HSE, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n ymwneud yn unionyrchol â gwaith lle y bydd ganddo'r sgiliau, yr arbenigedd a'r dystiolaeth a lle y gallant hwy, yn hytrach nag eraill, fod yn brif ysgogwr ar gyfer newid. Bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn casglu ac yn defnyddio tystiolaeth i lywio a gwerthuso'r gweithgareddau hyn ac i ddarbwylo eraill.
- Bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn datblygu strategaeth ymyrraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir. Bydd hyn yn lleihau dyblygiadau ac yn cydnabod yn llwyr gyfraniadau cynrychiolwyr diogelwch yn y gweithle, yswiriant, arweiniad, cynllunio, hyfforddiant a chymhwysedd rheolwyr, y gadwyn gyflenwi, dulliau newydd o gymorth, archwilio a gorfodi.
- Bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn parhau i nodi'r amgylchiadau hynny y mae angen ymchwilio iddynt a'i gorfodi o bosibl gan ddefnyddio dulliau rhagweithiol, megis archwiliadau, a dulliau adweithiol, gan gynnwys ymateb i gwynion neu ddigwyddiadau.
- Nid ydym yn ystyried rheoliadau newydd fel yr ymateb awtomatig i faterion newydd neu amgylchiadau sy'n newid ond byddwn yn parhau i bwysu am ddirwyon uwch, cyfraith newydd ar ladd corfforaethol a chael gwared ar Freint ryddid y Goron. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i

gynnal a chadw maes chwarae gwastad o ran iechyd a diogelwch ledled Ewrop fel sail cyfraith gyfatebol a weithredir yn gyson.

- Bydd HSE yn sicrhau bod ei alluoedd gwyddonol, technolegol ac ymchwilio yn parhau i fod yn berthnasol i'n strategaeth ymyrraeth. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill ar faterion gwyddonol a thechnolegol lle bynnag y bydd cydfanteision o wneud hynny.
- Bydd HSE yn parhau i weithio i atal digwyddiadau yn y diwydiannau hynny sydd â'r potensial i achosi niwed sylweddol, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, megis y diwydiannau cemegol, alltraeth, niwclear a rheilffyrdd ac i gynnal a chadw ein rhwymedigaethau rhyngwladol. Bydd HSE yn adolygu ei drefnau achos diogelwch i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfatebol i natur newidiol y diwydiannau hyn ym Mhrydain Fawr. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau trwy geisio sylwadau rhanddeiliaid.

## Parhau i orfodi lle y bo'n briodol

**M**ae gorfodi neu ofni gorfodi yn ysgogwr pwysig i rai cyflogwyr. Mae ein tystiolaeth yn cadarnhau bod gorfodi yn ddull effeithiol o sicrhau cydsyniad a hyrwyddo hunan-gydsyniad ond mae gormod o farwolaethau ac anafiadau difrifol yn digwydd yn sgil methiannau syml. Mae hyn yn annerbyniol a bydd yn parhau felly

- Bydd HSE ac Awdurdodau Lleol yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau cydymffurfriad cyfatebol â'r gyfraith ac i sicrhau y gall y rhai sydd â dyletswyddau oddi tani fod yn atebol am fethiannau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles. Bydd cwmpas y gweithgareddau hyn yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac fe'i nodir yn glir yn ein datganiad polisi gorfodi.

# 4

## Cyfleu'r weledigaeth

### Cyfathrebu'n effeithiol

Byddwn yn hyrwyddo'r achos ar gyfer Rheolaethau iechyd a diogelwch synhwyrol a gymhwysir yn synhwyrol. Ein nod yw nid i gael cymdeithas sy'n rhydd o risgiau ond cymdeithas lle y gwerthfawrogir, deallir a rheolir risgiau'n gywir. Rydym am alluogi gweithgareddau i gael eu cynnal a fyddai fel arall yn achosi pryder. Er mwyn cyfleu'r neges hon yn effeithiol, mae angen i ni ddatblygu cysylltiadau dwyffordd mwy aeddfed, agored, tryloyw a chynhwysol gydag ystod eang o randdeiliaid. Rydym am gael deialogau cynhyrchiol, yn arbennig ar lefel ranbarthol.

Bydd hyn yn gwella ansawdd ein proses o wneud penderfyniadau, yn helpu i gadarnhau ymddiriedaeth ac yn sicrhau bod mwy o bobl yn cydnabod ac yn parchu iechyd a diogelwch.

Byddwn yn dod yn gyfathrebydd ac yn ddylanwadwr cryf, â'r nod o sicrhau y deallir buddiannau busnes a chymdeithasol iechyd a diogelwch, a rolau'r rheolyddion ac eraill yn well.

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy cadarn wrth amddiffyn enw da'r system iechyd a diogelwch yn erbyn y rhai sy'n ei difrio, y rhai sy'n or-frwdfrydig wrth ei chymhwyso a'r rhai na all gydnabod y cydbwysedd priodol rhwng risgiau a manteision.

Mae angen i ni ddeall y ffordd orau o farchnata ein cyngor a'n harweiniad a byddwn yn defnyddio canolwyr lle y gallant wella mynediad i wybodaeth am iechyd a diogelwch i'r rhai sydd ei hangen.

Byddwn yn egluro bod rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol yn gydgyfrifoldeb lle y mae'n rhaid i unigolion hefyd chwarae eu rhan.

Mae angen i HSE ddod yn fwy medrus wrth ddelio â chynulleidfaoedd gwahanol mewn

ffyrdd gwahanol a sicrhau cyfathrebu dwyffordd effeithiol. Mae angen iddynt fod yn sicr bod HSE yn gwrando ac mae HSE am sicrhau y caiff negeseuon iechyd a diogelwch synhwyrol a phriodol eu derbyn a'u deall.



# Beth fydd canlyniad gwireddu'r weledigaeth?

## Ble yr hoffwn fod mewn 10 mlynedd

Byd lle y bydd iechyd a diogelwch yn gonglfaen cymdeithas wâr. Golyga hyn:

- bod y targedau 'Adfywio' wedi'u bodloni a bod diwylliant o welliannau parhaus ar led.
- bod cyfraniad y broses o reoli iechyd a diogelwch yn y gymdeithas yn cael ei deall yn well. Cytunir yn gyffredinol ar yr achos economaidd a moesol ar gyfer iechyd a diogelwch galwedigaethol deymhlith y partneriaid cymdeithasol a'r cyhoedd a hyder yn y rheolyddion;
- bod proses asesu risg chyfranogiad cyflogeion ac ymgynghori yn norm ac nad y rheolyddion yw'r prif ysgogwyr ar gyfer gwelliant bellach;
- bod sianeli o ansawdd da ar gyfer cymorth a chynghor busnes yn cael eu defnyddio'n aml a'u parchu'n fawr.

## Sut y bydd rhanddeiliaid yn ymddwyn mewn system iechyd a diogelwch newydd

**HSC** – llais cyfrifol iechyd a diogelwch, hyrwyddwr camau gweithredu, adfocad rheoli risgiau yn synhwyrol yn seiliedig ar enghreifftiau bob dydd gydag ymagwedd fwy cymhleth wedi'i neilltuo ar gyfer y rheini sy'n gallu elwa ar 'oddefgarwch fframwaith risgiau'.

**HSE** – yn datblygu ac yn ymateb i ddadl gyhoeddus yngl\_ n â rôl rheolyddion mewn byd ac economi sy'n newid. Ac, o ddewis, yn canolbwyntio ei ymdrechion ar ymyriadau lle y gallant gael yr effaith fwyaf.



**Awdurdodau Lleol** – partneriaid gorfodi cymwys, cyson ac ymrwymedig gyda HSE.

**Gweinidogion** – y ffenestr i Whitehall, yn hyrwyddo iechyd a diogelwch ymhlith eu cyd-aelodau er mwyn cyfrannu at agenda ehangach a datblygiad gwasanaethau cyhoeddus gwell.

**Y gweinyddiaethau datganoledig** – yn ategu fframwaith Prydain Fawr dros iechyd a diogelwch ac yn nodi'r cysylltiadau a'r dibyniadau gyda'u cyfrifoldebau datganoledig.

**Cyflogwyr** – yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth perfformiad iechyd a diogelwch fel rhan o'u hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac yn cysylltu â chynrychiolwyr diogelwch sydd â rôl bwysig yn y gwaith o reoli iechyd a diogelwch lleol.

**Cyflogeion** – yn hyddysg ac yn cymryd cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch eraill yn ogystal ag iechyd a diogelwch hwy eu hunain.

**Y cyhoedd** – yn deall ac yn ategu rôl HSC, HSE a'r Awdurdodau Lleol.

**Undebau llafur** – yn gweithio gydag eraill i ddatblygu arweiniad y tu allan i fframwaith HSE ac i ategu fframwaith cynrychiolwyr diogelwch cenedlaethol.

**Cynrychiolwyr diogelwch** – bydd eu cyfranogiad yn y gwaith o reoli iechyd a diogelwch yn norm.

**Cymdeithasau llafur** – yn gweithio gyda chynrychiolwyr cyflogeion i ddatblygu, i gytuno ac i gyfleu cyngor ac arweiniad sy'n benodol i ddiwydiant a hyrwyddo safonau cyffredin ymhlith eu haelodaeth.

**Sefydliadau cyfryngol Cwmniau Bach** – wedi'u hargyhoeddi o'r achosion busnes ac economaidd ar gyfer iechyd a diogelwch ac yn

cyflwyno cymorth a chynngor o'r radd flaenaf i'w hetholaethau.


**Diwydiant yswiriant** – partner gweithredol wrth reoleiddio risgiau busnes drwy fwy o gyfranogiad yn y system a thrwy hyrwyddo cymhelliannau ariannol.

**Y cyfryngau** – sylwebwyr deallus.

**Gweithwyr iechyd galwedigaethol proffesiynol** – wedi'u hintegreiddio a'u cysylltu'n llawn â'r gwaith o ddatblygu'r system ar gyfer iechyd a diogelwch galwedigaethol.

**Gweithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol** – yn ehangu'r ddadl y tu allan i fforymau iechyd a diogelwch prif ffrwd ac yn helpu i'w rhesymoli.

**Staff HSE ac Awdurdodau Lleol** – yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud a'r hyn nad ydynt yn ei wneud, a pham.



# Sut y byddwn yn cyflwyno'r strategaeth

## Cyflwyno canlyniadau â blaenoriaeth drwy weithredu rhaglen strategol

**B**ydd HSE yn canolbwyntio ar y meysydd sydd angen mynd i'r afael â hwy fwyaf ac yn cyflwyno'r rhain gyda'r Awdurdodau Lleol drwy raglenni gweithgaredd effeithlon sydd â digon o adnoddau a nodau a cherrig milltir cyhoeddedig. O fewn y Rhaglenni Strategol hyn, rhoddir blaenoriaeth i ystod o raglenni wedi'u targedu. Ymhlith y rhain bydd: amaeth; adeiladu; gwasanaethau iechyd; cwmpo o uchder; llithro a baglu; trafndiaeth y gweithle; salwch cyhyrsgerbydol; straen sy'n gysylltiedig â gwaith; a sefydlu'r llywodraeth fel enghraifft o safonau iechyd a diogelwch da.

Byddwn yn bodloni targedau '*Adfywio Iechyd a Diogelwch*' erbyn 2010 er mwyn lleihau nifer y marwolaethau a damweiniau ag anafiadau difrifol o 10%; lleihau cyfradd salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith o 20%; a lleihau'r dyddiau gwaith a gollir o ganlyniad i fethiannau iechyd a diogelwch o 30%.

Bydd HSE yn datblygu rhaglen gwella busnes i sicrhau diwylliant o welliant parhaus.

## Cyflenwadau Cynnwys

Datganiad ar gyfranogiad gweithwyr erbyn mis Mawrth 2004.

Casglu tystiolaeth bellach i ddangos yr achos busnes ar gyfer iechyd a diogelwch a'i gyhoeddi, gydag astudiaethau achos, ar wefan newydd yn ystod Haf 2004.

Cynigion ar gyfer cymorth yn seiliedig ar fodolau ar gyfer cymorth iechyd a diogelwch

galwedigaethol a gaiff ei beilota ar hyn o bryd erbyn Gwanwyn 2004.

- Cynlluniau rhaglen strategol pwysig erbyn mis Mai 2004.
- Arwydd o'r meysydd a ddeallir ac a reolir yn dda lle na fydd HSE yn rhagweithiol; cynigion ar gyfer ymgynghoriad erbyn mis Awst 2004.
- Cytundeb partneriaeth pwysig rhwng HSE a'r Awdurdodau Lleol erbyn mis Gorffennaf 2004.
- Cynigion ar gyfer sianeli cyngor ac arweiniad hawdd eu cyrraedd heb orfod ofni gorfodaeth erbyn mis Medi 2004.
- Strategaeth ymyrraeth erbyn diwedd 2004.
- Ymgynghoriad ar ein rôl o ran materion diogelwch y cyhoedd erbyn diwedd 2004 er mwyn annog dadl ehangach ar draws y Llywodraeth â'r nod o egluro cyfrifoldebau'n well ar gyfer asiantau sy'n rhan o faterion diogelwch cyhoeddus.

## Adolygiad

**M**ae HSC yn ymrwymedig i gymryd rôl fwy gweithgar a strategol yn y gwaith o ddatblygu'r system iechyd a diogelwch. Byddwn yn goruchwylio'r broses o weithredu'r strategaeth hon drwy raglen weithredu. Byddwn yn adolygu'r pecyn strategaeth a datblygiad pellach y polisi yn gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n gyson â'n heriau yn y dyfodol. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar sut y gwireddwyd rhai o'n cynigion ymhen blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol.



**MISC643W/E** C100 02/04

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod  
Gweithredol Iechyd a Diogelwch